**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 26ain Tachwedd 2013

**Swyddog/Aelod Arweiniol:** Cynghorydd Bobby Feeley
Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant
Sally Ellis, Cyfarwyddwr Corfforaethol Moderneiddio a Lles

**Awduron yr Adroddiad:** Katie Newe, Rheolwr Tîm Cefnogi Pobl

**Teitl:** Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl Sir Ddinbych 2014-15 a 2015-16

---

## 1. Beth sydd dan sylw yn yr adroddiad?

Y Cynllun Comisiynu Lleol (CCLl) ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl (CP) yn Sir Ddinbych. Fframwaith polisi a llif nawdd i ddarparu cefnogaeth gysylltiedig â thai i bobl agored i niwed, gan hybu annibyniaeth ac atal digartrefedd yw Cefnogi Pobl.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad hwn?

Mae angen gwneud penderfyniad ar gymeradwyo'r CCLl ar gyfer 2014-15 a 2015-16 cyn ei gyflwyno i Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) Gogledd Cymru yn Ionawr 2014.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo Cynllun Comisiynu Lleol Cefnogi Pobl 2014-15 a 2015-16, cyn cyflwyno'r cynllun i'r PCRh a Llywodraeth Cymru.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Mae Cefnogi Pobl yn rhaglen bwysig sy'n darparu gwasanaethau cefnogi cysylltiedig â thai i amrywiaeth eang o bobl agored i niwed, gan gynnwys: pobl ifanc, pobl hŷn, pobl sy'n ffoi rhag trais domestig, pobl ddigartref, pobl sydd ag anghenion iechyd meddwl, pobl ag anabledd dysgu, pobl ag anghenion camddefnyddio sylweddau, cyn-droseddwyr ac eraill. Yn Sir Ddinbych, mae Cefnogi Pobl yn ariannu amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynnwys: elfennau tai gwarchod, gofal ychwanegol, llochesi i fenywod, cynlluniau byw yn y gymuned i bobl ag anableddau dysgu a chynlluniau i bobl ddigartref.

Nod cefnogaeth gysylltiedig â thai yw galluogi pobl i gynnal deiliadaeth eu tai, tenantiaeth yn aml drwy ddatblygu a chynnal yr hyder a'r sgiliau i fyw mor annibynnol â phosibl. Cafodd y Rhaglen Cefnogi Pobl ei gwerthuso ar lefel genedlaethol a gwelwyd ei bod yn cyflenwi manteision ariannol cadarnhaol iawn yn ogystal â manteision eraill.

**<u>Y Sefyllfa Bresennol.</u>**

Gweithredwyd newidiadau yn null gweinyddu'r rhaglen Cefnogi Pobl yn 2012. Ymysg y rhain yr oedd llywodraethu a chanllawiau newydd, trefniadau contractiol newydd ynghyd â fformwla dosbarthu cyllid newydd.

Yn sgil y fformwla dosbarthu cyllid bydd cyllideb Cefnogi Pobl Sir Ddinbych yn cael ei chwtogi 5% bob blwyddyn o 2012-13 hyd at 2016-17. Sefydlwyd cynlluniau i reoli'r toriadau hyn heb gael effaith sylweddol ar y lefelau gwasanaeth yn 2012-13, 2013-14 a 2014-5 a hefyd er mwyn datblygu ac ymgynghori ar fframwaith flaenoriaethu strategol teg a thryloyw i hysbysu rheoli'r toriadau yn 2015-16 a 2016-17.

Ym mis Gorffennaf 2013 dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y dylem ddisgwyl toriadau pellach o oddeutu 12% o fis Ebrill 2014 ymlaen – er na chadarnhaodd Llywodraeth Cymru hyn. Rydym yn awr wedi cael ar ddeall na fydd y toriadau ychwanegol hyn yn digwydd.

Mae'r CCLl felly yn canolbwyntio ar reoli'r gostyngiadau sy'n hysbys ac ar fod mewn sefyllfa, ar yr un pryd, i ymateb i doriadau ychwanegol yn y gyllideb mewn ffordd sy'n cael y lleiaf o effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

Rydym wedi gweithredu mewn modd hyblyg a chymysg. Mae cynllunio cyllideb 2014-15 wedi golygu rhoi'r gorau i brosiectau na chomisiynwyd, digomisiynu rhai prosiectau gyda chydsyniad y darparwyr ac yn olaf, trafod contractau llai ar gyfer prosiectau nad oeddent yn cael eu defnyddio i'r eithaf neu'n ei chael yn anodd cynnal y ddarpariaeth gwasanaethau.

Ar gyfer 2015/16, bydd y sialensiau'n galetach. Unwaith eto, anelwn i effeithio cyn lleied â phosibl ar y defnyddwyr gwasanaethau, pryd bynnag y bo hynny'n bosibl, drwy gyd-drafod arbedion effeithlonrwydd ac aildrefnu gyda darparwyr gwasanaethau unigol. Mae Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn mynnu ein bod yn adolygu'r holl brosiectau cyn eu hailfodelu; felly mae'n anodd gwneud ymrwymiadau diffiniol cyn cwblhau'r adolygiadau.

Mae'n bosibl na fyddwn yn llwyddo i wneud yr holl arbedion sydd eu hangen fel hyn ac mae'n bosibl y bydd angen i ni hefyd ystyried lleihau contractau lle na lwyddwyd i sicrhau arbedion. Er hynny, rydym yn ceisio gwneud arbedion drwy gonsensws ac rydym eisoes wedi cytuno ar gyfran sylweddol o'r arbedion fel hyn. Er bod Llywodraeth Cymru wedi hybu dull strategol o ganfod arbedion, maent hefyd wedi mynnu cyswllt adeiladol gan ddarparwyr i sicrhau arbedion, a bu hyn o gymorth.

Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n strategol wrth ddelio â'r dewisiadau anodd a wynebwn, gan gynnwys digomisiynu gwasanaethau o bosibl. I'r perwyl hwn rydym yn parhau i ddatblygu ein fframwaith Blaenoriaethau Strategol i Ariannu.

### Goblygiadau i Sir Ddinbych

Dengys y ffigurau mynegol oddi wrth Lywodraeth Cymru doriadau o 5% ar gyfer 2014-15 a thoriadau o 6.2% ar gyfer 2015-16. Rydym ni hefyd yn rhagweld toriadau pellach o 5% o leiaf ar gyfer 2016-17. Mae'r toriadau hyn yn golygu ein bod yn colli swm sylweddol o gyllid, ac mae'n debygol o effeithio ar wasanaethau CP a gyflenwir yn fewnol gan y Cyngor, gan gynnwys; Gwasanaethau Tai, Gwasanaethau Busnes ac Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Buom yn disgwyl y gostyngiadau hyn ers nifer o flynyddoedd, ond mae'r tîm Cefnogi Pobl yn parhau i weithio gyda'r gwasanaethau yr effeithir arnynt i sicrhau bod y gostyngiadau hyn yn effeithio cyn lleied â phosibl ar gyflenwi gwasanaethau. Ceir hefyd ddarpariaeth ariannol sydd wedi'i rhoi o'r neilltu er mwyn lliniaru effaith y gostyngiadau mewn cyllid ar y gwasanaethau mewnol. Byddwn yn darparu ar gyfer y gyfran fwyaf o'r toriadau mewnol yn 2014/15 drwy ddigomisiynu gwasanaethau sydd wedi darfod, mae hyn yn lleihau'r effaith ar gyflenwi gwasanaethau yn sylweddol o safbwynt y gwasanaethau mewnol presennol.

### Gweithredu a restrir yn CCLl CP ar gyfer 2014-15 a 2015-16

Cynhwysir manylion y gweithredu yn Atodiad 1 o'r adroddiad hwn. Dyma'r prif flaenoriaethau strategol:

- **Menywod a Dynion sy'n Dioddef Cam-drin Domestig**
  Mae'r holl wasanaethau Cam-drin Domestig (a ddarperir gan Cymorth i Fenywod Glyndwr, Hafan Cymru a Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych ar

hyn o bryd) yn cael eu hadolygu yn 2013 gyda'r nod o'u hailfodelu. Disgwylir y bydd y gwasanaethau wedi'u hailfodelu yn cynnwys arbedion ariannol. Bwriedir ailfodelu'r gwasanaethau mewn dau gam, gan ganolbwyntio ar Gefnogaeth fel y bo'r Angen a Thai â Chefnogaeth yn 2014/15.

- **Pobl ag Anableddau Dysgu**
  Fel y nodir yn yr Adroddiad Archwilio dyddiedig 24/06/13, bydd Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ddinbych yn gostwng y cyllid cyffredinol i adlewyrchu'r toriadau cyffredinol yn y grant.
- **Pobl Ifanc ag Anghenion Cefnogi (16 - 24)**
  Bydd Prosiect Tai â Chefnogaeth 24 awr Pobl Ifanc Dinbych yn dechrau yn fuan yn 2014 - gyda chyswllt posibl â phrosiect cefnogaeth fel bo'r angen i bobl ifanc Tai Clwyd 5 YP.
- **Generig/Cefnogaeth fel y bo'r Angen/Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaethau sy'n rhoi sylw i amrywiol anghenion y defnyddwyr)**
  Ystyried ailfodelu gwasanaethau Lloches Nos ac Ailsefydlu Nacro yn y Rhyl i ddarparu gwasanaeth mwy ymatebol a hyblyg i bobl sy'n cysgu allan, o bosibl fel prosiect cydweithredol a allai gynnwys rhanddeiliaid eraill a chomisiynu rhai elfennau ar draws y ffiniau.

**<u>Cynllun Gwariant CP</u>**

Oherwydd yr ansicrwydd gyda'r toriadau, ni fu eto'n bosibl gwneud Cynllun Gwariant terfynol CP. Mae crynodebau o'r cyfrifiadau grant ac effaith ddisgwyliedig y gostyngiadau yn y gwariant ar gyfer 2014-15 i'w gweld yn y tabl yn Atodiad 2.

Mae'r gostyngiad terfynol o 5% yn 2014/15 (£323k) a gostyngiad pellach tybiedig o 6.2% yn 2015/16 (£360k) yn cyfateb i oddeutu £683k. Mae hyn yn ychwanegol at y £549k a reolwyd ac a dderbyniwyd eisoes hyd at a gan gynnwys 2013/14.

Mae canllawiau CP yn mynnu cyflwyno cynllun gwariant 3 blynedd. Fodd bynnag, nid ydym mewn sefyllfa i gynllunio ymlaen cyn belled oni roddir rhyw raddau o sicrwydd i ni ynglŷn â'r lefelau cyllido tebygol.

Cynhelir adolygiad o bob prosiect. Wrth i hyn ddatblygu, gallai'r adolygiadau helpu i hysbysu opsiynau eraill i gyflenwi'r lefel arbedion sy'n ofynnol. Bydd pob adolygiad yn ystyried; pa mor gymwys yw'r gwasanaethau, perthnasedd strategol a pherfformiad yn erbyn contractau a chanlyniadau.

### 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd cydweithredu rhanbarthol a strategaeth ranbarthol ar gyfer comisiynu a chyflenwi gwasanaethau yn cyfrannu at reoli'r gostyngiad yn y grant ac at ddiogelu gwasanaethau rheng flaen i grwpiau agored i niwed, rhywbeth sy'n bwysig mewn perthynas â'r blaenoriaethau corfforaethol.

### 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Yn unol â'r ohebiaeth flaenorol gan Lywodraeth Cymru, rhagamcannir y bydd cyfanswm y gostyngiad hysbys yn y grant CP yn oddeutu £1.469m i Sir Ddinbych (mae hyn yn seiliedig ar y 23% dros 5 mlynedd 2012 - 2016/17). Bydd hyn yn cael effaith ar y gyllideb Dai a'r gyllideb Gofal Cymdeithasol. Byddai'r effaith gyffredinol ar gyllideb CP yn £323,000 yn 2014-15 ac yn £360,000 yn 2015-16.

Bydd y prosiectau a'r newidiadau a nodwyd yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb Cefnogi

Pobl a ddyrennir i Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cymru.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Fe wnaeth Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl gynnal tri chyfarfod wrth lunio'r adroddiad hwn a buont yn ystyried data Mapio Anghenion, gwybodaeth o'r map cyflenwi ac adborth o gyfarfodydd ymgynghori a gan y rhanddeiliaid. Mynychwyd tri chyfarfod gyda defnyddwyr gwasanaethau, deg cyfarfod ychwanegol gyda darparwyr unigol. Cafodd y cynllun drafft hefyd ei gyflwyno i'r fforwm darparwyr yn Awst.

Cafodd proses ymgynghori wyth wythnos a oedd yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a'r darparwyr cefnogaeth presennol a rhanddeiliaid eraill ei chynnal o fis Gorffennaf i fis Medi. Cafodd safbwyntiau, sylwadau ac awgrymiadau o'r broses eu hadrodd yn ôl i Grŵp Cynllunio CP i hysbysu llunio'r adroddiad hwn ac maent wedi'u crynhoi'n fyr isod.

Cyflwynwyd y ddogfen derfynol i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Sir Ddinbych ar 17eg Medi 2013 ac i Bwyllgor Archwilio ar Gymunedau Cyngor Sir Ddinbych ar 17eg Hydref 2013 – yn ddiweddarach mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno hysbysiadau mynegol o'r dyraniadau i awdurdodau lleol (23/10/13) – a diweddarwyd yr adroddiad hwn yn unol â'r ffigurau hyn.

Caiff y ddogfen hon ei chyflwyno i gael ei hystyried gan Bwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gogledd Cymru yn Ionawr 2014, i hysbysu llunio Cynllun Comisiynu Lleol Gogledd Cymru. Yn olaf, caiff y Cynllun hwn ei drosglwyddo i Adran y Gweinidog Tai ac Adfywio yn Llywodraeth Cymru.

Caiff y ddogfen derfynol ei chyhoeddi ar dudalennau Cefnogi Pobl ar wefan Cyngor Sir Ddinbych a chaiff ei chylchredeg i'r holl grwpiau cynllunio presennol a'r fforymau sy'n gysylltiedig â Cefnogi Pobl yn Sir Ddinbych.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r gostyngiadau arfaethedig yn yr arian grant yn sylweddol o hyd a rhaid i ni barhau i reoli'n ofalus y goblygiadau ehangach ar y rhaglen Cefnogi Pobl – a'r effaith ehangach ar gyllidebau eraill y cyngor. Mae'r cyngor wedi bod yn ddarbodus ac wedi gwneud rhai darpariaethau ariannol i liniaru effaith y gostyngiadau, ond dylid parhau i adolygu'r rhaglen er mwyn sicrhau nad yw'r gwariant yn fwy na'r cyllid a ddyrennir.

## 9. Beth yw'r risgiau ac a oes unrhyw beth allwn ni ei wneud i'w lleihau?

Mae'r cynigion ar gyfer rheoli'r gostyngiad yn yr arian grant yn 2014-15 yn rhesymol. Gellid talu am unrhyw brinder yn y cyllidebau gofal cymdeithasol drwy ddefnyddio'r arian wrth gefn a sefydlwyd i reoli'r toriadau y bwriedir eu gwneud yn y grant. Mae'r cynnig i ddosbarthu'r gostyngiadau mewn grant yn gyfartal dros holl wasanaethau CP yn taenu'r effaith yn fwy gwastad ond mae hynny'n peri risgiau yng nghyd-destun pwyllgor rhanbarthol sydd â safbwyntiau gwahanol posibl ynglŷn â'r blaenoriaethau o fewn cyllid CP yn gyffredinol. Mae dosbarthu'r toriadau'n fwy gwastad yn golygu bod yr effaith ar y cyngor yn gyffredinol yn haws ei rheoli a byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd o safbwynt defnyddio arian wrth gefn CP i ddelio â'r mater.

## 10. Pŵer i wneud Penderfyniad

Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972